Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Hedd Wyn

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Bro Hedd Wyn yn gymuned ddysgu gynhwysol, gofalgar a chlòs lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu. Mae staff yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarn â'r disgyblion, gan feithrin ymddiriedaeth a pharch sy'n hybu ymddygiad da ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau o'u mannau cychwyn.

Mae'r pennaeth yn arweinydd hynod ymroddgar sy'n rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y ddarpariaeth. Gyda chefnogaeth tîm o staff cydwybodol, mae hi'n sicrhau bod gwerthoedd craidd yr ysgol yn treiddio drwy holl agweddau bywyd a gwaith yr ysgol. Mae staff yn darparu profiadau ysgogol sy'n hyrwyddo chwilfrydedd naturiol y disgyblion ac adalw eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu effeithiol, yn enwedig wrth fodelu iaith raenus a hybu medrau dysgu annibynnol disgyblion.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r defnydd dychmygus a phwrpasol o dechnoleg ddigidol a ddefnyddir gan staff i hybu llafaredd disgyblion. O'r oedrannau ieuengaf, mae disgyblion yn defnyddio ystod dda o dechnegau i fynegi eu syniadau'n hyderus, ac wrth symud drwy'r ysgol, maent yn mireinio'u medrau'n gyson. Mae hyn yn cyfrannu'n bwrpasol at ddatblygu hyder, medrau cydweithio a datblygu medrau siarad cadarn.

Ar y cyfan, mae staff yn cefnogi datblygiad medrau darllen, ysgrifennu, mathemateg a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Nid yw'r profiadau dysgu a ddarperir gan staff yn herio'r disgyblion, yn enwedig y rhai hynaf, yn ddigon cyson.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod briodol o weithgareddau ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cynnig cefnogaeth effeithiol i'r pennaeth a'r staff.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella**

A1 Sicrhau bod y prosesau gwerthuso yn canolbwyntio'n well ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion

A2 Darparu profiadau dysgu sy'n herio dysgu'r disgyblion yn gyson, yn enwedig ar gyfer y rhai hynaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2026